**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth**
20 Mehefin 2017
Ystafell Gynadledda C

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Jeremy Field (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Mandie Lavin (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Martin Birch (Cyngor Caerdydd)
James Tovey (SAIF Charter)
Gordon Swan (Golden Charter)
Simon Wilkinson (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
David Beamer (Ysgrifennydd)
Philip Blatchly (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

Russell George AC
Darren Millar AC
Janet Finch-Saunders AC
Nigel Lymn Rose (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Lorraine Barrett (Gweinydd Dyneiddiol)
Simon Thomas AC
Paul Davies AC
Neil Hamilton AC
Roy Folland (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Jean Letton (BASW)
Carys Moseley (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
Kim Bird (About the Funeral)
Janette Bourne (Cruse)
Paul Harding (Marie Curie)
Andrew Davies (Dignity)

**Eitem 2: Cymeradwyo'r cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cymeradwyo, gydag un cywiriad i gyfenw Jean Letton, a gafodd ei gamsillafu yn y cofnodion drafft.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf**

Roedd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob maes.

**Eitem 4: Cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn siarad â'r Grŵp**

Siaradodd Martin Birch a Simon Wilkinson â'r Grŵp ar y materion a ganlyn:

- Amrywiadau yn y ffioedd y mae awdurdodau lleol yn eu codi am wasanaethau claddu ac amlosgi
- Y costau sydd ynghlwm wrth gynnal angladdau plant
- Hyfforddi staff awdurdodau lleol i ymdrin â phobl sydd wedi dioddef profedigaeth

O ran y ffioedd a godir gan awdurdodau lleol, galwodd Jeremy Field am fwy o dryloywder ynghylch costau awdurdodau lleol. Croesawodd Martin Birch y sylwadau hynny. Gwnaeth y Cadeirydd gais bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn archwilio'r hyn y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa o ran tryloywder. Gwnaeth Mr Birch gynnig i geisio canfod pa ffigurau cenedlaethol sydd ar gael at ddibenion cymharu costau.

Cytunodd y Cadeirydd i anfon llythyr at Mark Drakeford AC yn gofyn am ddata cymharol ar ffioedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai'r llythyr hefyd yn gofyn am fwy o eglurder ynghylch y gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chostau angladdau plant.

**Eitem 5: Diwygio'r system ardystio marwolaethau**

Adolygodd y Grŵp lythyr gan Vaughan Gething AC ar y pwnc o ddiwygio'r system ardystio marwolaethau.

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU, mynegodd y Grŵp ddiddordeb mewn ymateb Llywodraeth Cymru i'w ymgynghoriad a lansiwyd ar 7 Tachwedd 2016, o'r enw: "Cynnig i newid y system ardystio marwolaethau a chyflwyno archwilwyr meddygol yng Nghymru".

Mynegodd Philip Blatchly bryderon ynghylch yr oedi a geir wrth ryddhau cyrff, a chynigiodd ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Ysgrifennydd. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Vaughan Gething AC i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch diwygio'r system ardystio marwolaethau, gan gynnwys y pryderon a fynegwyd am y Ffurflen Werdd.

**Eitem 6: Y Gronfa Gymdeithasol / Fforddiadwyedd Angladdau**

Trafododd y Grŵp y datblygiadau diweddaraf o ran y cymorth a ddarperir drwy'r gronfa gymdeithasol i dalu am angladdau, gan gynnwys cynigion Llywodraeth yr Alban.

Yn ogystal, cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog newydd, Caroline Dinenage AS, i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Llywodraeth newydd. Nododd Jeremy Field fod y cyfarfodydd gweinidogol ford gron yn ddefnyddiol, a chytunodd y Cadeirydd i gynnwys sylwadau am y mater hwn yn y llythyr.

**Eitem 7: Budd-daliadau Profedigaeth**

Trafododd y Grŵp y cam o gyflwyno'r Taliad Cymorth Profedigaeth (BSP). Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd gysylltu â Janette Bourne i geisio ei barn am y BSP i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 8: Darpariaeth Crwneriaid yng Nghymru**

Yn ystod cyfarfodydd blaenorol y Grŵp, mynegwyd pryderon ynghylch lefel y gefnogaeth a ddarperir yng Nghymru mewn perthynas â chrwneriaid. Cytunodd y Cadeirydd i anfon llythyr at y Prif Grwner i ofyn am fanylion ynghylch y broses o newid ffiniau ac ynghylch effaith y newidiadau hyn ar y ddarpariaeth yng Nghymru.

**Eitem 9: Crwneriaid yn symud cyrff – y defnydd a wneir o dendrau ar sail sero**

Mynegwyd pryderon yng nghyfarfodydd blaenorol y Grŵp am y defnydd a wneir gan grwneriaid o dendrau ar sail sero ar gyfer symud cyrff ar ran y crwner. Gwnaeth y Cadeirydd gais bod y defnydd a wneir o dendrau ar sail sero yn cael ei gynnwys yn y llythyr at y Prif Grwner.

**Eitem 10: Unrhyw fater arall**

Cododd Mandie Lavin y mater o'r costau sydd ynghlwm wrth angladdau plant.  Amlinellodd Martin Birch sefyllfa awdurdodau lleol yn ardal de Cymru.

**Eitem 11:** **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Roedd dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.